Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

Sgwrs Ffôn (Pobl a Thywydd)

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 7.

Dull

Darperir dau gerdyn 'sbardun' ar gyfer galwadau ffôn ac un ddeialog a fydd yn gosod y patrwm ar gyfer y sgyrsiau ffôn. Mae'r ddeialog yn gwneud defnydd helaeth o'r patrymau yn Unedau 6 a 7. Yn gyntaf, ewch trwy'r ddeialog â'r dysgwyr a gadewch iddynt chwarae rôl ychydig mewn parau. Os oes digon o amser, byddai'n werth ystyried defnyddio gweithgaredd 'Ar y Wal' i gyflwyno'r ddeialog.

Dylid rhannu'r dosbarth wedyn yn barau newydd a threfnu bod pob pâr yn eistedd (neu'n sefyll) gefn wrth gefn. Os ydy'r ystafell yn un fach, dylid edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r cyntedd y tu allan neu ystafell gyfagos. Gwaith pob pâr wedyn yw defnyddio'r sbardun ar y cardiau i ddatblygu sgwrs ffôn. Dylid cymell y myfyrwyr i estyn y sgwrs ychydig os yn bosib.

Pan fydd y sgyrsiau yn dechrau dwad i ben, dylid newid y parau a'r cardiau. Gan fod gwahaniaethau bach rhwng y cardiau a'i gilydd, bydd y sgyrsiau ffôn yn amrywio.

D.S. Os oes gennych fyfyrwyr trwm eu clyw, peidiwch â gofyn iddynt eistedd/sefyll gefn wrth gefn.

Taflen y Tiwtor

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Sgwrs Ffôn (Pobl a Thywydd)

A. Bore da. Caersws 387465

B. O bore da, Jen! Mae hi'n ddiflas, tydi!

A. Ydy. Mae hi'n ddiflas iawn. Mae hi'n bwrw glaw yma ac mae hi'n oer.

B. Mae hi'n bwrw glaw yma hefyd.

A. Dach chi'n mynd I'r dosbarth heno?

B. Nac ydw.

A. Pam? Lle dach chi'n mynd?

B. Dw i'n mynd i'r ysgol heno. Ydy Tony a Paul yn mynd?

A. Mae Tony yn mynd, gobeithio. Dydy Paul ddim yn mynd.

B. Pam dydy Paul ddim yn mynd?

A. Gwaith.

B. Be' dach chi'n wneud yfory?

A. Dim. Pam?

B. Be' am fynd am dro?

A. Dim diolch. Mae hi'n oer. Be' am fynd i siopa?

B. Iawn

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Sgwrs Ffôn (Pobl a Thywydd)

Cerdyn 1

A. Say Good Morning and give your phone number
B. Greet person and say that it's warm isn't it!
A. Agree. Say that it is very warm but it is windy.
B. Say that it's windy where you are too.
A. Ask whether B is going to the class tonight
B. Say no.
A. Ask why. Where is B going?
B. Say you're going to work. Ask whether Rob and Terry are going.
A. Rob's going, you hope. Terry's not going.
B. Ask why
A. Say he's going to hospital.
B. Ask what A is doing tomorrow
A. Nothing. Why?
B. Suggest going for a walk
A. Decline the offer. It's hot. Suggest going to the swimming pool.
B. Agree

Cerdyn 2

A. Say Good Afternoon and give your phone number
B. Greet person and say that it's wet isn't it!
A. Agree. Say that it is very wet and it is cold.
B. Say that it's wet where you are too.
A. Ask whether B is going to the class tonight
B. Say no.
A. Ask why. Where is B going?
B. Say you're going to college. Ask whether Dai and Catrin are going.
A. Dai's going, you hope. Catrin's not going.
B. Ask why
A. Say she's going to Llandudno.
B. Ask what A is doing tomorrow
A. Nothing. Why?
B. Suggest going for a walk
A. Decline the offer. It's wet. Suggest going to the café
B. Agree